



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 3 Hydref 2023 am 6.00yh
yn rhithiol ac yn Ystafell y Tŵr, Castell Aberteifi
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 3 October 2023 at 6.00pm
virtually and at the Tower Room, Cardigan Castle
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

Presennol/Present—**Y Cynghorwyr/Councillors:** Olwen Davies (**yn y gadair /** in the chair), Clive Davies, Catrin Miles, John Adams-Lewis, Philippa Noble, Siân Maehrlein, David Maehrlein, Trystan Phillips, Terresa Harries, Richard Davies, Richard Jones, Elaine Evans, Nick Bolton, Llinos Haf Jones (**Cyfieithydd/**Translator) a / and Eleri Maskell (**Clerc/Clerk**).

Cyflwynwyd grantiau gan y Ddirprwy Faer, y Cynghorydd Olwen Davies, i Theatr Byd Bychan, Elusen Aloud a Chlwb Pêl-droed Iau Llandudoch sydd oll wedi bod yn llwyddiannus yn eu ceisiadau diweddar. Mynegodd pob elusen eu diolchgarwch am y gefnogaeth a roddwyd gan y Cyngor Tref.

Grants were presented by the Deputy Mayor, Cllr Olwen Davies, to the Small World Theatre, The Aloud Charity and St Dogmaels Junior Football Club who have all been successful in their recent applications. Each charity expressed their gratitude for the support given by the Town Council.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

Croesawodd y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Olwen Davies, bawb i'r cyfarfod. Nid oedd unrhyw faterion personol i'w cofnodi.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

The Deputy Mayor, Cllr Olwen Davies, welcomed everybody to the meeting. There were no personal matters to record.

2. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a'r rhesymau a roddwyd.

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

3. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb

Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council's Code of Conduct.

Y Cyng / Cllr Siân Maehrelin	<i>Cais Cynllunio/Planning Application: A230616 – mae'r ymgeisydd yn perthyn i'r cyngorydd / applicant is related to the councillor.</i>
Y Cyng / Cllr David Maehrelin	<i>Cais Cynllunio/Planning Application: A230616 – mae'r ymgeisydd yn perthyn i'r cyngorydd / applicant is related to the councillor.</i>
Y Cyng / Cllr Olwen Davies	<i>Cais Cynllunio/Planning Application: A230629 – mae'r ymgeisydd yn cyflogi'r cyngorydd / the applicant employs the councillor.</i>
Y Cyng / Cllr Catrin Miles	<i>Gohebiaeth Rhif 141 / Correspondence Number 141 – mae'r cyngorydd yn ymddiriedolwr ar gyfer Eglwys y Santes Fair / the councillor is a trustee for St Mary's Church.</i>

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 5 Medi 2023.

Cynigiwyd y Cyngorwyr bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth 5 Medi yn gywir. I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod is-bwyllgor a gynhaliwyd nos Fawrth 19 Medi 2023.

Cynigiwyd y Cyngorwyr bod cofnodion y cyfarfod is-bwyllgor a gynhaliwyd Nos Fawrth 19 Medi yn gywir.

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 5 September 2023.

The Councillors proposed that the 5 September 2023 council minutes be recorded as correct.

To approve and sign minutes of the sub-committee meeting held on Tuesday 19 September 2023.

The Councillors proposed that the 19 September 2023 council sub-committee meeting minutes be recorded as correct.

5. Adroddiad y Clerc

I dderbyn adroddiad gan Glerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Medi 2023.

- **Mae'r archwiliad blynyddol o gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2022-23 wedi'i gwblhau gan Archwilio Cymru ac mae barn archwilio ddiamod wedi'i chyhoeddi. Mae'r hysbysiad o gwblhau yr archwiliad a'r hawl i archwilio'r datganiad blynyddol wedi'u harddangos yn ffenestr y swyddfa ac ar hysbysfwrdd y dref ochr yn ochr â'r Ffurflen Flynyddol sy'n cynnwys yr adroddiad archwilio a barn, am o leiaf 14 diwrnod, yn unol â'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Rhannwyd copi o'r Ffurflen Flynyddol archwiliedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 gyda'r cyngorwyr cyn y cyfarfod.**

Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 5 September 2023.

- The annual audit of the Council's accounts for 2022-23 have been completed by Audit Wales and an unqualified audit opinion has been issued. The notice of conclusion of audit and right to inspect the annual return has been displayed in the office window and the town noticeboard alongside the Annual return which

contains the audit report and opinion, for a minimum of 14 days, in accordance with the requirements stated in The Accounts and Audit (Wales) Regulations 2014. A copy of the audited Annual Return for the year ended 31 March 2023 was shared with the councillors prior to the meeting.

6. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat

I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahrad.

Dim wedi'i ddatgan.

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

None declared.

7. Cynllunio

Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynnir a dadansoddi sylwadau priodol.

Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A230616	Colin Owen, Hafan, Cnwc y Dintir, Aberteifi, SA43 1AW	<i>Dymchwel garej presennol, codi anecs nain ar y llawr gwaelod gydag ystafell wely ar y llawr cyntaf, ystafell ymolchi, stydi uwchben a gwaith cysylltiedig / Demolition of existing garage, erection of ground floor granny annex with first floor bedroom, bathroom, and study above and associated works.</i>	<i>Dim gwrthwynebiad / No objections.</i>
A230620	British Telecom Plc, Cardigan Telephone Exchange, Finch Square, Pont y Cleifion, Aberteifi, SA43 1BS.	<i>Creu compownd storio diogel i iard safle cyfnewidfa ffôn Aberteifi. Bydd y compownd yn cynnwys cynwysyddion storio 2Nr 3m a fydd yn cynnwys offer a deunyddiau i gefnogi'r rhwydwaith seilwaith telathrebu lleol / Creation of secure storage compound to the yard of Cardigan Telephone exchange site. The compound will include 2Nr 3m storage containers that will house equipment and materials in support of the local telecoms infrastructure network.</i>	<i>Dim gwrthwynebiad / No objections.</i>
A230629	Barclays Bank Plc, 32 High Street, Aberteifi, SA43 1HH.	<i>Gosod rhwydi adar ar y landeri ar ffasâd blaen yr adeilad / The installation of bird netting to the guttering on the front façade of the building.</i>	<i>Cefnogi yn llawn / Fully support.</i>

A230637	Hans, Health Centre, Feidrfair, Aberteifi, SA43 1EB.	<i>Estyniadau llawr gwaelod a llawr cyntaf i'r adeilad gwag presennol a newid defnydd o hen ganolfan iechyd Aberteifi i ddefnydd manwerthu ar y llawr gwaelod a deintyddfa ar y llawr cyntaf /</i> Ground and first floor extensions to the existing vacant building and change of use from the former Cardigan health centre to a retail use on the ground floor and a dentist's surgery on the first floor.	<i>Cefnogi yn llawn / Fully support.</i>
A230659	D Little TJ Morris Ltd, Land at Bath House Road, Aberteifi, SA43 1JY.	<i>Arddangos arwyddion / Display of signage.</i>	<i>Mae cynghorwyr yn dymuno gweld enghraifft neu ddelwedd o'r arwyddion arfaethedig sydd angen bod yn ddwyieithog /</i> Councillors wish to see an example or image of the proposed signage which needs to be bilingual.

8. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhify Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
01/10/23	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Hydref/October)</i> <i>Band Lydan (Hydref) / Broadband (October)</i>	A9 A20	D/D	£250.00(0.00) £20.00 (0.00)
04/10/23	<i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Medi/September)</i>	A5	BACS	£1381.88(0.00)
04/10/23	<i>Bachan Deche / Handyperson (Medi/September)</i>	A19	BACS	£396.00(66.00)
04/10/23	<i>Bachan Deche / Handyperson – planhigion / plants</i>	C1	BACS	£2418.00(0.00)
13/09/23	Llinos Jones – <i>Gwasanaeth cyfieithu/Translating service</i>	A18	BACS	£70.00(0.00)
19/09/23	BT – <i>Bill ffôn/Telephone Bill</i>	A20	D/D	£66.49(11.08)
07/09/23	Sharp photocopying services – printing charges	A7	BACS	£60.23(10.04)
31/08/23	CCF - Compost	C1	BACS	£12.49(8.49)
16/09/23	Menter Aberteifi – Hire of Guildhall Radley Room	A23	BACS	£20.00(0.00)
19/09/23	CSC – <i>Ffi weinyddiu ar gyfer cau ffordd diwrnod y Ffair</i> CCC – Administration fee for closing the road Fair day	B8	BACS	£775.00(0.00)
04/10/23	PAYE – July, August. September payments	A16	BACS	£800.13(0.00)
01/10/23	Vision ICT – annual website hosting fee	C8	BACS	£252.00(42.00)
29/09/23	Telemat – <i>2 trwydded Anti-Virus / 2 anti-virus licences</i>	A17	BACS	£89.96(14.99)
02/10/23	Gower Fresh Christmas Trees	B1	BACS	£528.00(88.00)
04/10/23	<i>Theatr Byd Bychan / Small World Theatre</i>	D3	BACS	£2500.00(0.00)
04/10/23	<i>Clwb Pêl-droed Llandudoch / St Dogmaels Football Club</i>	D3	BACS	£964.00(0.00)
04/10/23	The Aloud Charity	D3	BACS	£500.00(0.00)

Cynigodd y Cynghorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.
The Councillors proposed that the listed bills be paid.

Derbyniadau/Receipts:

08/09/2023	Lloyds Bank: Llog / Interest	£78.33
09/2023	Fair Stall booking payments	£280.00

b) Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
122	Gavin Harris – <i>Cyng Tref Rhuthun Town Cllr: Uwchgynhadledd Trefi Bach a Chanol y Dref / Small Town & Town Centre Summit.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 04/09/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 04/09/2023.
123	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Digwyddiad ar y cyd rhwng Un Llais Cymru/SLCC, Dydd Mercher 8 Tachwedd 2023 / Joint event, One Voice Wales/SLCC, Wednesday 8 November 2023.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 04/09/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 04/09/2023.
124	Ben Lake AS/MP: <i>Diolch am y gwahoddiad i Seremoni Can Mlwyddiant Sentotaff Aberteifi / Thank you for the invitation to the Cenotaph 100-year anniversary.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 05/09/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 05/09/2023.
125	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Dolen i ddysgu mwy am Gwyllo Cyflymder Cymunedol / Link to learn more about Community Speed Watch.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 05/09/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 05/09/2023.
126	Dr Cyllene Griffiths – <i>Cyfarwyddwr / Director, The Griffiths Heritage Consultancy: Hysbysiad o Ddigwyddiadau Ymgynghori Cyhoeddus Ardaloedd Cadwraeth Ceredigion / Notice of Ceredigion Conservation Areas Public Consultation Events.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 07/09/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 07/09/2023.
127	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Digwyddiad nesaf Pethau Bychain / Next Event Pethau Bychain.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 08/09/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 08/09/2023.
128	Clare Davies – <i>Swyddog Grantiau ac Effaith, Sefydliad Cymunedol Cymru / Grants and Impact Officer, Community Foundation Wales: Digwyddiad yng Nghastell Newydd Emlyn / Event in Newcastle Emlyn.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 11/09/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/09/2023.
129	Hywel Dda Engagement: <i>Ymgynghoriad Safle Ysbyty Newydd – Adroddiad Adborth / New Hospital Site Consultation – Feedback Report.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 11/09/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/09/2023.
130	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Ymgynghoriad cyhoeddus Ombwdsmon Cymru ar: Ein Cynllun Cydraddoldeb 2023-2026 / The Welsh Ombudsman's Public Consultation: Our Equality Plan 2023-2026.</i>	<i>Bydd Un Llais Cymru yn paratoui ymateb ddiolchgar am sylwadau erbyn 2 Hydref / One Voice Wales will be preparing a response – comments appreciated by 2 October.</i>
131	Wendi Patience – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir yn mis Medi / Remote training sessions that are taking place in September.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 12/09/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 12/09/2023.
132	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru 2023 / Motions for One Voice Wales AGM 2023.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 12/09/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 12/09/2023.
133	Steve Rice, Treasurer, Friends of Cardigan Swimming Pool: <i>Cynghorwyr i gyfeirio cais at Ymddiriedolwyr y Pŵll am gyfarfod CCB / Councillors to direct a request to the Trustees of the Pool for an AGM meeting.</i>	<i>Gwnaed y cais gan gynghorwyr mewn cyfarfod is-bwyllgor diweddar / Request made by councillors in recent sub-committee meeting.</i>

134	CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Pontyclieifion, Aberteifi rhwng 08.00-18.00 yn dyddiol o 02/10/2023-04/10/2023 / Pontyclieifion, Cardigan from 08.00-18.00 daily on 02/10/23-04/10/23.	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 13/09/2023. For your information. Forwarded to all councillors on 13/09/2023.
135	Cathryn Morgan, CSC/CCC: Ymgynghoriad am Premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gatrefi / Consultation on Council Tax Premium on second homes and long-term empty properties.	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 19/09/2023. For your information. Forwarded to all councillors on 19/09/2023.
136	Tamsin Davies – Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu, Lleisiau Eraill / Head of Marketing and Communications, Other Voices: Gwahoddiad Llywodraeth Cymru i Derbyniad Lleisiau Eraill / Welsh Government Invitation to Other Voices Reception.	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 19/09/2023. For your information. Forwarded to all councillors on 19/09/2023.
137	CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Y Stryd Fawr, Aberteifi rhwng 18.00-06.00 yn dyddiol o 23/10/2023-24/10/2023 / High Street, Cardigan from 18.00-06.00 daily on 23/10/23-24/10/23.	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 19/09/2023. For your information. Forwarded to all councillors on 19/09/2023.
138	Cylchlythyr Rhif 1 Un Llais Cymru / One Voice Wales Newsletter No 1.	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 21/09/2023. For your information. Forwarded to all councillors on 21/09/2023.
139	Wendi Patience – Un Llais Cymru / One Voice Wales: Sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir yn mis Medi a Hydref / Remote training sessions that are taking place in September and October.	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 26/09/2023. For your information. Forwarded to all councillors on 26/09/2023.
140	Rhys Caygill – Cais am gymorth ariannol i fynychu Coleg y Byd Unedig, Gwlad Thai / Request for financial support to attend the United World College, Thailand.	Nid oedd cyngorwyr yn ystyried ei bod yn dderbyniol cefnogi gweithgareddau unigol yn ariannol, yn enwedig gan drigolion y tu allan i blwyf Aberteifi. Gofynwyd am ffyrdd o gyfrannu'n unigol / Councillors did not deem it acceptable to be financially supporting individual pursuits, especially from residents outside the parish of Cardigan. They requested ways to donate on an individual basis.
141	Louise O'Neill – Warden y Ficer, Eglwys y Santes Fair / Vicar's Warden, St Mary's Church: Cefnogi cais am fin ci oddi wrth CSC / Support a request for a dog bin from CCC.	Penderfynodd y Cyngorwyr ofyn i CSC osod bin baw ci y tu allan i gatiu'r Eglwys / Councillors resolved to request that a dog waste bin be installed outside the Church gates by CCC.
142	CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Y Stryd Fawr, Aberteifi rhwng 18.00-06.00 yn dyddiol o 10/10/2023 / High Street, Cardigan from 18.00-06.00 daily on 10/10/23.	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 28/09/2023. For your information. Forwarded to all councillors on 28/09/2023.
143	Catrin George – Gwasanaeth Economi ac Adfywio, CSC / Economy and Regeneration Service, CCC: Cronfa Cynnal y Cardi / Cynnal y Cardi Fund.	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 29/09/2023. For your information. Forwarded to all councillors on 29/09/2023.

c) Gwasaneth Sul y Cadoediad.

Penderfynodd cyngorwyr gynnig lluniaeth ysgafn i westeion gwadd yn Ystafell Radley yn Neuadd y Dref yn dilyn gwasanaeth Dydd y Cadoediad.

Remembrance Day Service Refreshments.

Councillors resolved to offer light refreshments to invited guests in the Radley Room at the Guildhall following the Remembrance Day service.

d) Baneri stryd.

Yn dilyn cais llwyddiannus am grant, mae'r cyngor wedi prynu bracedi baneri polyn lamp a 4 set o faneri. Cytunodd y cyngorwyr i ddod ag awgrymiadau ar gyfer y 4 set o faneri i'r cyfarfod nesaf. Mae'r "Lleisiau Eraill" wedi dylunio baneri i hyrwyddo eu digwyddiad ddiwedd mis Hydref.

Street banners.

Following a successful grant application, the council have purchased lamp post banner brackets and 4 sets of banners. The councillors agreed to bring suggestions for the 4 sets of banners to the next meeting. The "Other Voices" have designed banners to promote their event at the end of October.

9. Eitemau er gwybodaeth yn unig / Items for information only

a) Dyddiadur y Maer.

- Fel Cyngorydd Etholedig Hyrwyddwr Golwg a Maer mynychais gyfarfod misol y Gymdeithas Facwlaidd a chwrdd â phobl sy'n byw gyda'r cyflwr hwn. Mae problem gyda Hywel Dda ddim yn cael eu cyflenwad pigiad yn rheolaidd. Felly, cysylltais â Phrif Weithredwr Hywel Dda, Steve Moore, i gwestiynu'r sefyllfa, rwy'n aros am ymateb ar hyn o bryd.
- Lansio clwb crefftiau yn Hwyl y Flair, Canolfan Siopa Teifi. Prynawn crefftiau a fynychwyd yn dda, mae'n agored i bawb bob dydd Mercher rhwng 12.00yp -3.00yp. Ariennir y clwb hwn gan Cavo a'i drefnu gan Mencap.
- Braff oedd cael dechrau y "Park Run" sydd newydd ei sefydlu. Mae'r digwyddiad yn llwyddiannus iawn ond mae angen mwy o gyhoeddusrwydd. Mynychodd tua 100 o redwyr, cerddwyr a gwirfoddolwyr ar y Sadwrn roeddwn ni yno. Mae'n ffordd hyfryd o dreulio bore Sadwrn i'r teulu oll, gan gynnwys eu cŵn. Mae'n rhad ac am ddim i gofrestru ac mae gennych chi rif i gystadlu yn eich erbyn eich hun a rhedwyr eraill os dymunwch. Mae angen gwirfoddolwyr i rhedeg y digwyddiadau yma.
- Mynychais bore coffi Ysgol Gynradd Aberteifi yn yr Angel. Roedd y raffl yn wych ac roedd rheilen yno ar gyfer dillad Ysgol ail law sydd yn helpu cadw costau lawr i rhai teuluoedd. Trefnwyd gemau i ddiddanu'r plant. Gobeithio y bydd y bore coffi hwn yn dod yn ddiwyddiad rheolaidd.
- Mae'r het deugorniog y cydwedd wedi'i dychwelyd gan y gwneuthurwyr, lle cafodd ei diweddarau gyda braid aur i gyd-fynd â het y Maer. Wrth i ni ei rhoi yn ôl yn y castell, croesawyd bws o dwristiaid o Gaergrawnt, roeddent yn falch iawn o weld y gwisgoedd a'r hetiau yn y castell.
- Mynychodd y dirprwy Faer, y Cyng Olwen Davies, fore coffi Pwyllgor Gefeillio Patagonia yn Neuadd y Dref pan oeddwn yn "park run", diolch Olwen. Credaf fod y bore codi arian yn un llwyddiannus. Diolch hefyd am gadeirio'r cyfarfod heno.

Mayors' Diary.

- As the elected Sight Champion Councillor and Mayor I attended the Macular Society monthly meeting and met people living with this condition. There is an issue with Hywel Dda not receiving their injection supply regularly. Therefore, I contacted the Chief Executive of Hywel Dda, Steve Moore, to query the situation, I am currently waiting for a response.
- Launched the craft club in The Fun of the Flair, Canolfan Teifi Shopping Centre. Well attended crafting afternoon and open to all every Wednesday between 12.00pm- 3.00pm. This club is funded by Cavo and organised by Mencap.
- Set off the newly established Saturday Park Run which is very successful but requires more publicity. Approximately a 100 runners, walkers and volunteers attended. It is a lovely way to spend a Saturday morning for all the family, including their dogs. It is free to

register and you have a number to compete against yourself and other runners if you wanted to. Volunteers are always needed.

- Ysgol Gynradd Aberteifi coffee morning fundraiser in the Angel. The raffle was great and there was also a rail for pre loved clothing for the children. Games were organised to keep the children entertained. Hopefully this coffee morning will become to be a regular event.
- The Consorts Bicorn Hat has been returned from the manufacturers, where it was updated with a gold braid to match the Mayor Tricorn. Whilst we returned it to the castle, we welcomed a coach of tourists from Cambridgeshire, they were very pleased to see the robes and hats in the castle.
- Cllr Olwen Davies attended the Patagonia Twinning Committee coffee morning at the Guildhall when I was at the park run, thank you Olwen, I believe the morning was a successful fundraiser. Thank you for chairing the meeting tonight.

b) Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

Y Cyng Siân Maehrlein Ward Mwldan

- **Rwyf wedi cael cyfarfod gyda'r Swyddog yn yr Orsaf Dân i weld a allwn gael gwared ar y man llwytho/parcio ar Ffordd Y Baddondy. Mae hyn yn achosi llawer o broblemau i'r Injan Dân fynd allan yn gyflym, heb sôn am y criw tân rhan amser sy'n cyrraedd yr orsaf pan fydd eu blîpwyr yn diffodd. Defnyddir y man llwytho yn bennaf ar gyfer parcio a chwsmeriaid siop sglodion, ac mae car a threlar yn cael eu parcio yno bron bob dydd. Rwy'n gobeithio cyfarfod ag un o Swyddogion Priffyrdd Ceredigion gyda'r Criw Tân i geisio datrys y broblem hon. Ni fydd angen y groesfan ar waelod yr heol, yr ydym wedi bod yn gofyn amdano, os nad oes lle parcio o gwbl ar y ffordd hon, bydd y traffig yn llifo'n rhwydd i'r ddau gyfeiriad.**

Cllr Siân Maehrlein Mwldan Ward

- I have had a meeting with the Officer in the Fire Station to see if we can get the loading bay on Bath House Road removed. This is causing a lot of problems for the Fire Engine to get out quickly, not to mention the part time fire crew reaching the station when their beepers go off. The loading bay is primarily used for parking and chip shop customers, and a car and trailer are parked there most days. I am hoping to meet with one of the Ceredigion Highway Officers with the Fire crew to attempt to resolve this problem. The crossing at the bottom of the hill, which we have been asking for, will not be required if there is no parking at all on this road, the traffic will flow freely in both directions.

Y Cyng Elaine Evans Ward Teifi

- **Yn dilyn llwyddiant yr Haf o Hwyl a grybwyllwyd eisoes yn fy adroddiadau, rwyf wedi cael rhagor o wybodaeth gan Emily Edwards – CSC, a Rhiannon Ling o Tai Wales and West:**
- **Yn gyffredinol, aeth 5 allan o'r 6 dydd Iau a gynlluniwyd ymlaen. Cafodd y sesiwn olaf ei chanslo oherwydd glaw trwm.**
- **Dros y cyfnod o 5 wythnos, mynychodd 100 o blant o gymuned Aberteifi 1 neu fwy o'r digwyddiadau.**
- **Ar gyfartaledd, roedd 50 o blant yn mynychu bob dydd Iau.**

- Dros y cyfnod o 5 wythnos, gwnaeth New Life Church tua 300 o brydau bwyd i'r plant a'u rhieni. Yn ogystal â darparu cinio cynnes, aethpwyd â llawer o'r prydau hynny adref a'u bwyta i ginio y noson honno.
- Mae tua 90% o'r plant hyn yn mynychu Ysgol Gynradd Aberteifi.

Cyfranwyr i'r cynllun:

- Jigso
- RAY Ceredigion
- Eglwys Bywyd Newydd
- Ceredigion Actif
- Mens Sheds
- Partneriaeth Natur Leol Ceredigion
- Gwasanaeth Tân
- PCSO
- Tîm Allgymorth Datblygu Cymunedol Hywel Dda
- Milly Jackdaw yn adrodd stori

Rwyf wedi cynnwys y wybodaeth ychwanegol hon yn y gobaiith y bydd yr Haf o hwyl yn cael ei gynnal eto y flwyddyn nesaf.

- Ar hyn o bryd yn ymgynghori ag Emily Edwards, Rheolwr Partneriaeth Gymunedol Aberteifi, ac artist lleol i beintio murlun yng nghanol y dref, gan weithio gyda disgyblion ysgolion uwchradd. Mae'r prosiect eisoes wedi cael arian grant. Unwaith y bydd yr artist a'r plant ysgol wedi penderfynu ar thema, bydd y syniadau'n cael eu rhannu gyda pherchnogion Siop Achub Cŵn Gorllewin Cymru, sydd eisoes wedi rhoi eu sêl bendith yn amodol ar gytuno ar thema'r murlun. Mae'r lleoliad yn ddelfrydol, yn weladwy iawn, yn ardal eang, ac ymarferol ddiogel i'r disgyblion beintio'r wal.
- Wedi ailymweld â Gardd Enfys yn ddiweddar gyda rhai gofalwyr lleol/rhieni plant/pobl ifanc awtistig ac anabl. Mae'r ardd synhwyrdd wych wedi datblygu llawer ers fy ymweliad diwethaf. Rwy'n falch o fod yn mynychu gweithdy i wneud gêm 'noughts and crosses' mawr i ychwanegu at y chwarae synhwyrdd yno. Mae cyfarfodydd misol wedi'u trefnu i roi cyfle i rieni/gofalwyr ddod at ei gilydd a sgwrsio.
- Mynychu bore coffi yng Ngwesty'r Angel gan Gymdeithas Ffrindiau (Ysgol Gynradd Aberteifi) i dynnu llun ar gyfer adroddiad Tivyside.
- Mae ymgynghoriad ar-lein ar Breimiwm Treth y Cyngor ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor, byddwn yn annog pawb i gymryd rhan yn y cyfle hwn.
- Mae gan breswlydd o Fron y Dre bryderon ynghylch post ffôn sy'n ymsuddo yn ei gardd. Mae'r glaw trwm diweddar wedi achosi i'r postyn blygu ymhellach i'r ffordd fechan sy'n arwain at Fferm yr Hen Gastell. Mae BT wedi dweud wrthi mai cyfrifoldeb y cyngor yw hwn, felly rwyf wedi bod yn cefnogi trwy tynnu lluniau ar ei rhan â cysylltu â CSC.
- Mae'r safle bws gyferbyn â chyffordd Ridgeway yn dal wedi'u gornelu i ffwrdd yn dilyn peth difrod. Rhaid i ddefnyddwyr bysiau aros yn y glaw, rwyf wedi mynd ar ôl y mater hwn sawl gwaith, ond rwy'n dal i aros i glywed rhai newyddion cadarnhaol.
- Cafodd y "Vehicle Activated Sign" ar Ffordd Aberystwyth, ger cyffordd Tesco, ei dynnu beth amser yn ôl, ers iddo gwrthod weithio. Dywedodd CSC na fyddent yn prynu arwydd newydd; nid oes ei angen ers gostwng y terfyn cyflymder cenedlaethol i 20mya. Gwerth cyfyngedig oedd i'r arwydd gan ei fod wedi ei leoli yn agos i'r gyffordd gyda'r A487. Mae gennym ni osod arwyddion sefydlog confensiynol fel opsiwn posibl pe na bai gyrywyr yn parchu'r terfyn 20mya newydd,

ond y gobaith yw, unwaith y bydd gyrwyr wedi addasu i'r terfynau newydd, efallai na fydd angen hyn.

- Adroddodd y Cyng Teresa Harries fod yr arwyddion 20mya ar gyffordd Tesco, sy'n troi i mewn o'r ffordd osgoi, wedi eu gorchuddio gan goed. Anfonais luniau CLIC a'm cyfeiriodd at Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru - a ofynnodd i Briffyrdd Ceredigion glirio'r broblem cyn gynted â phosibl.
- Mae arosfannau bysiau Finch Square wedi'u gor-reddeg gan chwyn eto o'r waliau. Rwyf wedi codi swydd gyda Cheredigion i ddod i'w clirio cyn gynted ag y gallant.
- Mae draen wedi'i flocio yn Ffair Feidr wedi'i godi swydd i'w glirio.
- Mae'r llwybr y tu ôl i'r Drawbridge sy'n mynd i fyny at y Capel Gorffwys yn fwdlyd eto ac yn llithrig. Wrth adrodd y mater, cysylltodd Eifion Jones Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus Ceredigion â mi i ddweud bod y llwybr hwn yn edrych fel rhywbeth a fyddai'n cyd-fynd yn braf iawn o dan eu cynllun "Mabwysiadu Llwybr", sy'n annog trigolion i wirfoddoli i ymgymryd â thasgau bach i helpu i gynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus ac asedau mynediad. Jill Lowry yw'r Swyddog Mynediad Cymunedol, ac mae'n recriwtio ac yn hyfforddi gwirfoddolwyr newydd i wneud y math hwn o waith. Mae Jill i ffwrdd ar wyliau ar hyn o bryd ond rwy'n gobeithio trafod y mater pan fydd yn dychwelyd i'r gwaith. Roedd tipio anghyfreithlon yno hefyd, ond rwyf wedi cael sicrwydd y bydd y Ceidwad Ardal yn ymchwilio iddo.
- Mae pwll nofio Aberteifi wedi cau eto nes clywir yn wahanol. Mae dŵr wedi bod yn mynd i mewn i'r trydan oherwydd twll yn y tô, roedd y sefyllfa'n beryglus. Rwyf wedi siarad ag Arwyn o CSC a gyfarfu â'r rheolwr ar 21 Medi. Roedd y rheolwr yn ceisio dod o hyd i gontractwr i ddatrys y mater. Allai hwn fod yn gyfle perffaith i wneud y gwaith grant mawr ar y pwll gan ystyried ei fod yn segur? Mae Paul Edwards, adeiladwr wedi bod i weld y tô, mae CSC wedi darparu cysylltiadau trydanwr. Anfonodd Carwyn Young neges ataf y prynhawn yma, gan ein bod wedi trafod cau i'r gwaith cyfalaf, ac mae'r pwll yn aros am gadarnhad gan y contractwyr a ellir ei gynnal wythnos ffair, pan fydd y pwll ar gau.
- Newyddion gwych bod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi dyfarnu cyllid gwerth £60,000 i Theatr Byd Bychan, maent yn gwneud gwaith da yn y gymuned. Bydd yr orymdaith lusernau yn mynd yn ei blaen eleni, mae ganddyn nhw dudalen ariannu ar gyfer y digwyddiad rhad ac am ddim hwn nawr i helpu i dalu costau cynnal hwn yn flynyddol.
- Siomedig bod y toiledau ar Isaf Mwldan wedi cael eu fandaleiddio eto, yr wythnos diwethaf mae rhywun wedi taflu lliw gwallt ar hyd a lled y cyfleusterau cyhoeddus deirgwaith. Er mwyn atal fandaliaeth bydd Ceredigion nawr yn cau'r toiledau am 3.30pm bob dydd. Nid Aberteifi yw'r unig dref sy'n destun fandaliaeth barhaus o doiledau cyhoeddus.

Cllr Elaine Evans Teifi Ward

- Following the success of the Summer of Fun previously mentioned in my reports, I have obtained further information from Emily Edwards – CCC, and Rhiannon Ling from Wales and West Housing:
 - Overall, 5 out of the 6 planned Thursdays went ahead. The last session was cancelled due to heavy rain.
 - Over the 5-week period, 100 children from the Cardigan community attended 1 or more of the events.

- On average, 50 children attended every Thursday.
 - Over the 5-week period, New Life Church made approximately 300 meals for the children and their parents. As well as providing a warm lunch, many of those meals were taken home and eaten for dinner that evening.
 - Approximately 90% of these children attend Ysgol Gynradd Aberteifi.
- Contributors to the scheme:
- Jigso
 - RAY Ceredigion
 - New Life Church
 - Ceredigion Actif
 - Mens Sheds
 - Ceredigion Local Nature Partnership
 - Fire Service
 - PCSO
 - Hywel Dda Community Development Outreach Team
 - Milly Jackdaw story telling
- I have included this additional information in the hope that the Summer of fun will be held again next year.
- Currently consulting with Emily Edwards, the Community Partnership Manager for Cardigan, and a local artist to paint a wall mural in the town centre, working with secondary school pupils. The project has already gained grant funding. Once the artist and school children have decided on a theme, the ideas will be shared with the owners of the West Wales Dog Rescue Shop, who have already given their approval subject to agreeing on the theme of the mural. The location is ideal, very visible, a large area, and safe for the pupils to practically paint the wall.
 - Recently re-visited Gardd Enfys with some local carers/parents of autistic and disabled children/young people. The fantastic sensory garden has developed a lot since my last visit. I am pleased to be attending a workshop to make a big 'noughts and crosses' game to add to the sensory play there. Monthly meetings have been set up to allow parents/carers a chance to get together and chat.
 - Attended a coffee morning at the Angel Hotel by Cymdeithas Ffrindiau (Cardigan Primary School) to take a photograph for the Tivyside Report.
 - There is a consultation online on Council Tax Premium for second homes and long-term empty properties, I would encourage all to get involved with this opportunity.
 - A resident from Bron y Dre has concerns regarding a subsiding telephone post in her garden. The recent heavy rain has caused the post to lean further onto the small road leading to Old Castle Farm. BT have told her it is the council's responsibility; therefore, I have been involved, taking photos on her behalf, and contacting CCC.
 - The bus stop opposite Ridgeway junction remains to be cornered off following some damage. Bus users must wait in the rain, I have chased this matter a few times for the residents, but I am still waiting to hear some positive news.
 - The Vehicle Activated Sign on Aberystwyth Road, by Tesco junction was removed some time ago, since it had ceased to function. CCC reported they will not purchase a replacement sign; it is not needed since the lowering of the national speed limit to 20mph. The sign had limited value, since it was located close to the junction with the A487. We do have the installation of conventional static signage as a possible option should drivers not respect the new 20mph limit, but the hope is that once drivers have adjusted to the new limits, this may not be required.
 - Cllr Teresa Harries reported that the 20mph signs at the Tesco junction, turning in from the bypass were covered by trees. I sent photos CLIC who referred me to the

North & Mid Wales Trunk Road Agency – who requested that Ceredigion Highways clear the problem as soon as possible.

- Finch Square bus stops are overrun with weeds again from the walls. I have raised a job with Ceredigion to come and sort as soon as they can.
- A blocked drain in Feidr Fair has a job raised for it to be cleared.
- The path behind Drawbridge going up to the Chapel of Rest is muddy again and slippery. On reporting the issue, Eifion Jones Ceredigion's Public Rights of Way Officer contacted me to say that this path looks like something that would fit very nicely under their "Adopt a Path" scheme, which encourages residents to volunteer to undertake small tasks to help maintain our public right of way and access assets. Jill Lowry is the Community Access Officer, and she recruits and trains new volunteers to undertake this type of work. Jill is currently away on leave but I am hoping to discuss the matter on her return to work. There was also fly tipping there, but I have been assured the Area Ranger will investigate it.
- Cardigan swimming pool has again closed until further notice. Water has been going into the electrics due to a leak in the roof, the situation was dangerous. I have spoken to Arwyn from CCC who met with the manager on the 21st September. The manager was trying to locate a contractor to solve the issue. Could this be the perfect opportunity to carry out the big grant works on the pool seeing as its out of action? Paul Edwards, a builder has been to see the roof, CCC have supplied electrician contacts. Carwyn Young messaged me this afternoon, as we had discussed the closure for the capital works, and the pool are waiting for confirmation from the contractors whether it can be carried out fair week, when the pool closes.
- Fantastic news that the Arts Council Wales have awarded funding to the value of £60,000 to Small World Theatre, they carry out good work in the community. The lantern parade will be going ahead this year, they have a funding page for this free event now to help cover the costs of hosting this on an annual basis.
- Disappointing that the toilets on Lower Mwldan have been vandalised again, last week someone has thrown hair dye all over the public conveniences three times. To kerb vandalism Ceredigion will now close the toilets at 3.30pm every day. Cardigan is not the only town that is subject to continuous vandalism of public toilets.

c) Adroddiad y Bachan Deche / Handyperson's Report.

- Cae Chwarae Brenin Siôr Sed / King George 5th Children's Play Area**
Dim byd o bwys i'w gofnodi / Nothing of note to record.
- Man chwarae amlwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.**
Dim byd o bwys i'w gofnodi / Nothing of note to record.
- Maes Sgrialu / Skateboard Park**
Dim byd o bwys i'w gofnodi / Nothing of note to record.
- Cyffredinol / General**
Mae'r tybiau a'r planwyr yn dal i edrych yn dda; byddant yn cael eu gadael cyhyd â phosib cyn eu clirio a'u hailblannu gyda bylbiau cennin pedr a thwlp. Bydd y basgedi yn cael eu tynnu yr wythnos hon.
The tubs and planters are still looking well; they will be left for as long as possible before being cleared and replanted with daffodil and tulip bulbs. The baskets will be removed this week.

10. Datganiad chwarterol y Maer ynglŷn â diogelwch ei chadwyn.

Quarterly statement by the Mayor regarding safeguarding chain of office.

Sicrhaodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.

The Mayor confirmed that both chains were in safe custody.

11. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf

Awgrymiadau ar gyfer baneri stryd.

Baw ci – Brenin Siôr V.

Arwydd ar giât mynediad brys – Brenin Siôr V.

Manhole – Clwb Bowlio Aberteifi.

Toiledau – cynllun i dalu'r perchennog siop.

Items for the next Agenda

Suggestions for street banners.

Dog waste – King George V.

Sign on emergence access gate – King George V.

Manhole – Cardigan Bowling Club.

Toilets – to pay the shop owner scheme.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.15yh.

There being no further business to discuss, the meeting closed at 7.15pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date